## Awdurdod Parc Cenedlaethol

### 26 Gorffennaf 2023

Yn bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)
Mrs J James, Mr GA Jones a'r Cynghorydd PJ Morgan.

Yn bresennol (o bell)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd SL Hancock, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd B Price, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Wilcox a’r Cynghorydd C Williams BEM.

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 11.21am; 11.32am – 12.09pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd M Wiggins.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a’r Cyfarfod Cyffredin) a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** ar gynnig y Cynghorydd P Morgan, ac a eiliwyd gan Dr M Havard i gadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a’r Cyfarfod Cyffredin) a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2023**.**

**4. Log Gweithredu**
Nodwyd cynnwys y Log Gweithredu. O ran eitem 886, ychwanegodd y Cadeirydd bod penderfyniad wedi'i wneud i beidio â dod â chofnodion Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr gerbron cyfarfodydd o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol, ond gallai'r Aelodau weld y cofnodion hyn dim ond gwneud cais.

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu’r digwyddiadau canlynol:

- Agoriad Arddangosfa Geiriau Coll yn Oriel y Parc, Tyddewi. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am ddigwyddiad gwych.

- Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru lle bu’n ymweld â’r Undebau Ffermio, yn cyfarfod â’r Prif Weinidog a’r Gweinidog Newid Hinsawdd, a thrafod materion megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Thwristiaeth Gynaliadwy.
- Cyflwyniad Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'Natur a Ni' oedd yn cyflwyno’r fenter Genedlaethol ar ddyfodol amgylchedd naturiol Cymru.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau’r Awdurdod i’r Aelodau eu hystyried/ er gwybodaeth:

(i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 7 a 21 Mehefin 2023;
(ii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023;
(iii) Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Strategaeth Ddrafft ar gyfer Archwilio Mewnol 2023/24 – 2025/26**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Ceri Kwiecinski, Rheolwr Sicrwydd Risg archwilwyr Mewnol newydd yr Awdurdod, Astari, a gyflwynodd y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Archwilio Mewnol 2023/24 – 2025/26.

Dywedwyd bod y ddogfen yn cynnwys Cynllun Archwilio manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd wedi'i ddatblygu yn dilyn adolygiad o’r dogfennau allweddol, adolygiad o’r sicrwydd eraill a roddwyd i'r Awdurdod, ac ymgynghori â'r Tîm Rheoli. Cadarnhawyd bod y strategaeth ddrafft wedi cael ei hystyried gan y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ar 12 Gorffennaf 2023 a bod yr adroddiad wedi’i ddiweddaru yn dilyn y trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod hwnnw. Dywedodd Ceri, gan fod Astari yn newydd i'r Awdurdod, bod y cynllun yn ddogfen ddeinamig ac yn seiliedig ar risg, ac felly'n agored i newid.

Nodwyd nad oedd yr adolygiad o Gyflogau a Graddfeydd wedi'i gynnwys yn y cynllun fel maes i'w adolygu, a gofynnodd un Aelod a fyddai modd archwilio’r maes hwn unwaith y byddai’r adolygiad wedi’i gynnal. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai adolygiad o'r maes hwn yn y dyfodol yn briodol er na fyddai hyn o reidrwydd yn cael ei wneud gan yr archwiliad mewnol.

Gofynnodd un Aelod am sicrwydd y byddai lefel o gydweithredu rhwng yr Archwiliwr Allanol, Archwilio Cymru a'r Archwilydd Mewnol, Astari. Ymatebodd Ceri bod Astari bob amser yn anelu at gael perthynas agos

ag Archwiliwr Allanol sefydliad, a rhoddodd enghreifftiau i'r Aelodau o'r camau a gymerwyd ganddynt yn y gorffennol i sicrhau'r cydweithredu hwn. Ychwanegodd Ceri mai'r gobaith oedd y byddai Archwilio Cymru ac Astari yn mynychu'r un cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar o leiaf un achlysur i annog dull o weithio mewn partneriaeth.

Canmolodd un Aelod Astari am eu parodrwydd i fod yn hyblyg, a gofynnodd a fyddai ganddynt y gallu i ychwanegu maes arall at y cynllun pe bai mater yn codi yn annisgwyl. Ymatebodd Ceri pe bai angen hynny, byddai Astari yn gallu edrych ar feysydd eraill, sy'n llai o flaenoriaeth, y gellid eu haildrefnu ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, neu fel arall, gallai'r Awdurdod brynu diwrnodau ychwanegol ar y gyfradd safonol fel bod meysydd ychwanegol yn cael eu cynnwys.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD** cytuno ar y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Archwilio Mewnol 2023/24 – 2025/26.

8. **Uwchgynllun Oriel y Parc**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Clare Bates (Pennaeth Twristiaeth Adfywiol) a Nicola Ward (Ymgynghorydd Craidd Creadigol), a gyflwynodd Uwchgynllun Oriel y Parc oedd yn rhoi manylion ar ffocws newydd y safle fel Canolfan Ddarganfod wirioneddol ar gyfer y Parc Cenedlaethol ehangach.

Rhoddwyd cefndir y Ganolfan i'r Aelodau, a chadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi buddsoddi £3.5 miliwn yn yr oriel a agorwyd yn 2008. Er gwaethaf lansiad llwyddiannus y Ganolfan, dywedwyd bod y cynllun busnes gwreiddiol wedi arwain at heriau ariannol. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r heriau hynny, cafodd y strwythur staff ei gydgrynhoi, gwnaed gwelliannau i'r deunydd oedd ar werth ar y safle, a rhoddwyd y gwaith o redeg y caffi ar gontract allanol. Er bod y newidiadau hyn wedi bod yn llwyddiannus, gwelwyd eu bod wedi effeithio ar y gofod a'r staff oedd ar gael i gyflwyno gweithgareddau a digwyddiadau dehongli. Hefyd talwyd sylw i effaith negyddol Covid-19 ar y Ganolfan Ymwelwyr gan fod y safle wedi gorfod cau am gyfnod sylweddol o amser.

Eglurwyd bod y tîm wedi dod i'r casgliad, yn dilyn cynnal sawl gweithdy, bod nifer o'r penderfyniadau gweithredol a wnaed ar gyfer y Ganolfan dros y blynyddoedd wedi canolbwyntio ar gynhyrchu incwm, ac felly datblygwyd yr Uwchgynllun mewn ymgais i sicrhau bod y ganolfan yn canolbwyntio o'r newydd, ac i'r un graddau, ar gadwraeth, creadigrwydd a materion masnachol. Ychwanegwyd y byddai'r Ganolfan, drwy weithredu'r Uwchgynllun, yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial o ran talu sylw i

faterion megis newid hinsawdd, yr argyfwng bioamrywiaeth a chynhyrchu incwm.

Nododd Aelod bod yr adroddiad yn rhoi manylion am y cyfle posibl i drafod cynyddu'r tâl a godir ar y cwmni presennol sy'n rhedeg y caffi, a gofynnodd a fyddai'r cynnydd hwn yn gynaliadwy i'r cwmni presennol neu a oedd cynlluniau i ail-dendro'r cyfle ar y farchnad agored fel rhan o'r Uwchgynllun. Cadarnhaodd y Swyddog Ystadau bod prydles bresennol y caffi yn rhedeg tan fis Tachwedd 2024, a bod trafodaethau ar droed ynghylch a fyddai'n well dychwelyd i'r farchnad agored ar ddiwedd pob cylch prydles yn y dyfodol neu a ddylid ymdrechu i barhau i weithio gyda'r darparwr presennol gan fod hynny yn golygu llai o risg i'r Awdurdod.

Rhoddwyd adroddiad ar niferoedd yr ymwelwyr fel rhan o'r Uwchgynllun, ac roedd un Aelod yn ddigalon i nodi, er bod tua 96,000 o unigolion wedi ymweld â'r Ganolfan, mai dim ond 13,087 o unigolion oedd wedi ymweld â'r oriel, er bod y mynediad am ddim. Gofynnwyd a oedd adborth yn cael ei gasglu ar y safle i ddeall yr ystadegau hyn ymhellach. Ymatebodd y Pennaeth Twristiaeth Adfywiol bod yr ystadegau hyn, yn ei barn hi, yn amlygu'r angen am i'r Ganolfan fod yn atyniad yn ei rhinwedd ei hun fel Canolfan Ddarganfod Parc Cenedlaethol yn hytrach na dibynnu ar yr oriel i ddenu ymwelwyr. Eglurodd y Swyddog bod y mwyafrif o unigolion wedi ymweld ag Oriel y Parc i gynllunio eu gweithgareddau yn Sir Benfro, ac wedi hynny wedi dod ar draws yr oriel ar hap, felly roedd yr oriel yn elfen bwysig o'r Ganolfan ond nid y pwysicaf. Ychwanegwyd bod adborth gan ymwelwyr yn cael ei gasglu oedd, ar y cyfan, yn hynod gadarnhaol.

Holodd un Aelod am y berthynas ag Amgueddfa Cymru, fu ar un adeg, yn berthynas lewyrchus o gydweithredu, ac atebodd y Prif Weithredwr bod yr Amgueddfa wedi mynd drwy gyfnod o newid, fodd bynnag cadarnhaodd bod y memorandwm cyd-ddealltwriaeth i'w adolygu yn 2024 ac mai nod yr Awdurdod oedd ymgysylltu ar lefel uwch i ailsefydlu'r berthynas gadarn honno. Roedd yr Aelodau yn cymeradwyo'r ymagwedd newydd hon gan eu bod o'r farn bod y cyswllt Cenedlaethol hwn yn holl bwysig i'r gymuned leol. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Aelod, cadarnhawyd bod gan y ganolfan gysylltiad cryf â'r gymuned leol a'i bod yn ymgysylltu'n aml drwy amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau.

Roedd yr Aelodau yn canmol y tîm am baratoi'r cynllun cyffrous ac uchelgeisiol hwn, ond mynegwyd pryder ynghylch y cyllid fyddai ei angen, ac awgrymwyd cynnal model costau a buddiannau. Er gwaethaf hyn, roeddent yn cydnabod bod y cynllun yn cyflwyno rhai 'buddiannau cyflym' y gellid eu gweithredu yn y tymor byr heb fawr o gost. Eglurodd y Prif Weithredwr bod yr Uwchgynllun wedi'i lunio gydag uchelgais mewn golwg gan fod yr Awdurdod am fod mewn sefyllfa i wneud cais am arian a ddyfernir i gynlluniau mwy sylweddol. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr

Aelodau mai casgliad o syniadau oedd yr Uwchgynllun fyddai'n destun llu o brosesau Datblygu Busnes cyn cael ei weithredu, ac felly nid oedd y ffigurau na'r geiriad yn yr Uwchgynllun yn derfynol ar hyn o bryd. Ychwanegwyd y byddai unrhyw ddatblygiadau yn cael eu dwyn gerbron cyfarfodydd yn y dyfodol i sicrhau bod yr Aelodau yn rhan o'r daith.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr R Heath Davies, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo 'Opsiwn 3' yn Uwchgynllun Oriel y Parc fel uchelgais i ymgyrraedd ato yn y tymor hir ar gyfer Oriel y Parc, yn amodol ar ddatblygu cynllun busnes a sicrhau'r cyllid angenrheidiol.

9. **Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau a Chynlluniau Cyflawni Drafft 2023/24 – 2026/27**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mair Thomas, y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, a gyflwynodd y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau a'r Cynlluniau Cyflawni 2023/24-2026/27. Roedd y dogfennau hyn wedi'u dosbarthu i'r staff a'u cyflwyno ar ffurf drafft i'r Aelodau yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod, ac roedd yr adroddiad yn amlygu'r themâu allweddol a godwyd a'r modd yr ymdriniwyd â'r themâu hynny. Hefyd roedd crynodeb o'r Asesiad Integredig ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â maint sylweddol y Cynlluniau Cyflawni a mynegwyd pryderon ynghylch y modd y byddai'r Aelodau yn adolygu'r meysydd blaenoriaeth. Awgrymwyd y gellid adolygu pob un o'r 4 prif faes blaenoriaeth yn y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, ac un maes blaenoriaeth fesul cyfarfod. Cadarnhaodd un Aelod bod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn adolygu'r cynlluniau hyn yn fanwl ac mai da fyddai cael eglurhad ynghylch pa feysydd sydd angen y sylw a'r craffu mwyaf. Cytunodd y Prif Weithredwr â'r pwyntiau hyn, ac awgrymodd y dylai Cadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio a Gweithredol gyfarfod â'r Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth i drafod atebolrwydd a throsolwg yr Aelodau mewn perthynas â'r cynlluniau hyn. Roedd pawb yn cytuno.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau a'r Cynlluniau Cyflawni 2023/24 – 2026/27.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:21am a 11:32am.]

**10. Bil Seilwaith (Cymru) Llywodraeth Cymru**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Sara Morris, y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu, a gyflwynodd ddiweddariad ar ddatblygu Bil Seilwaith (Cymru) Llywodraeth Cymru, ac amlinellodd y pwyntiau allweddol yr oedd yr Awdurdod yn dymuno eu gwneud i'r

ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth newydd hon. Gwahoddwyd yr Aelodau i gyflwyno sylwadau ychwanegol i'w cynnwys yn yr ymateb. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y newidiadau arfaethedig i'r fframwaith deddfwriaethol, ac yn ystyried y cynigion yn fanwl.

Dywedwyd bod y Bil wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd ar gyfer craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Ychwanegwyd bod y Pwyllgor yn ceisio barn ar egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni bwriad y polisi dan sylw. Nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau oedd dydd Gwener 11 Awst 2023.

Dywedwyd mai dim ond 20% o'r incwm ffioedd y mae Awdurdodau Cyhoeddus Lleol (ACLl) yn ei dderbyn o dan y system bresennol o geisiadau Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, er gwaethaf y llwyth gwaith sylweddol sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau hynny. Eglurwyd y bu'n ofynnol yn flaenorol i'r Awdurdod gyfrannu at Adroddiad Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos ar Effaith Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn Lleol ond nad oedd wedi derbyn unrhyw ffi am y gwaith hwn o dan y system bresennol. Y gobaith oedd y byddai datblygu rheoliadau newydd i gyd-fynd â'r Bil Seilwaith (Cymru) yn caniatáu i'r mater allweddol hwn gael ei ystyried. Amlygwyd gan yr Aelodau y gallai ceisiadau oddi ar yr arfordir gael effaith ar lwyth gwaith yr Awdurdod, a chodwyd cwestiynau ynghylch a fyddai gwahaniaethau yn cael eu gwneud ynghylch pa Awdurdod Cyhoeddus Lleol fyddai'n gyfrifol am bob ardal. Yn ogystal, holodd Aelod a fyddai caniatâd megis Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd ac Asesiadau Parth Cadwraeth Morol yn parhau yn sgîl y newidiadau hyn. Nodwyd sylwadau ac ymholiadau'r Aelodau i'w cynnwys yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Ar gynnig y Cynghorydd S Alderman, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **PENDERFYNWYD**;

(a) cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Seilwaith (Cymru).
(b) y byddai'r Aelodau yn cyflwyno unrhyw sylwadau pellach i'w cynnwys yn ymateb terfynol yr Awdurdod erbyn diwedd oriau swyddfa ar 9 Awst 2023.
(c) bod Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael pwerau dirprwyedig i gyflwyno ymateb i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd ac Isadeiledd Llywodraeth Cymru, yn amodol ar gytundeb Cadeirydd yr Awdurdod.

## 11. Diweddariad ar Ddefnydd Tir ar Draeth Mawr, Trefdraeth, at Ddibenion Atal yr Arfer o Barcio ar y Traeth

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Gary Meopham, y Swyddog Ystadau, a gyflwynodd ddiweddariad i'r Aelodau ar ddefnydd tir ar Draeth Mawr, Trefdraeth, yn dilyn caffael y tir dan sylw ar 9 Mai 2023.

Dechreuodd y Swyddog Ystadau drwy ddangos lluniau i'r Aelodau o Draeth Mawr yn ystod Hafau 2022 a 2023 i ddangos effaith y newidiadau diweddar i'r hawl i gerbydau gael mynediad i'r traeth. Cadarnhawyd bod y rhwystr sy'n atal cerbydau rhag mynd ar y traeth wedi bod yn ei le ers ychydig dros wythnos.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod mater mynediad i'r anabl i'r traeth yn dilyn y newidiadau yn Nhraeth Mawr wedi'i godi. Cadarnhaodd y Swyddog Ystadau bod pob maes parcio yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnig mannau parcio i'r anabl i'r rhai sydd â Bathodynnau Glas, ond Cyngor Sir Penfro oedd yn rheoli ac yn monitro'r cynllun hwnnw.

Mynegodd un Aelod ei gydymdeimlad ag unigolion sydd ag anabledd oedd yn hanesyddol wedi gallu cael mynediad i'r traeth drwy ddefnyddio cerbyd, a gofynnodd a oedd yn bosibl i'r Awdurdod drefnu cynllun ar gyfer unigolion sy'n dibynnu ar y mynediad hwn i'r anabl. Ychwanegodd Aelod arall bod angen i'r Awdurdod ystyried ffyrdd mwy creadigol o gefnogi cymunedau i gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol a deall bod gan bobl ystod o heriau. Awgrymwyd enghraifft lle byddai gwirfoddolwyr mynediad yn cynorthwyo unigolion gael mynediad i'r traeth.

Nodwyd bod darparu cadeiriau olwyn traeth ar y Traeth Mawr yn ychwanegiad pwysig yn yr ymdrech i wella mynediad i'r traeth, a chadarnhawyd mai'r nod oedd ehangu'r ddarpariaeth hon ymhellach yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod angen i'r Awdurdod gadw'r ddysgl yn wastad rhwng diogelwch a risg wrth weithio i ehangu mynediad cymaint â phosibl i bawb fwynhau'r traeth. Roedd y swyddogion wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw ffordd ddiogel ar hyn o bryd i ganiatáu ceir ar y traeth ac felly, awgrymwyd y dylai'r rhwystr aros yn ei le am weddill y flwyddyn tra bod mesurau eraill yn cael eu harchwilio. Ategwyd mai diogelwch y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd oedd prif flaenoriaethau'r Awdurdod yn y mater hwn.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Mrs J James, **PENDERFYNWYD**:

a) bod y swyddogion yn symud ymlaen yn unol â'r penderfyniad presennol dyddiedig 08/02/23 ac y byddai'r Aelodau yn cael adroddiad pellach yn y dyfodol yn nodi'r materion, y cyfleoedd a'r heriau a gododd yn ystod yr haf di-gerbyd cyntaf ar draeth Traeth Mawr;
b) ymchwilio i'r opsiynau o ran gwella mynediad i'r traeth i bobl sydd ag anabledd.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r  Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 heb eu diwygio.